



SYMUD O'R MATERION A AMLYGWYD YN YR ASESIAD LLESIANT I'R AMCANION AR GYFER Y CYNLLUN LLESIANT

Cyhoeddwyd Asesiad Llesiant lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili (y Bwrdd) ym mis Mawrth 2017. Nod y ddogfen hon oedd amlygu'r ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar fywydau trigolion bwrdeistref Caerffili, ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

Wrth ddatblygu'r Asesiad, fe wnaethom ymgysylltu'n helaeth â thrawstoriad mawr o'n cymunedau, gan gynnwys trigolion, y gymuned fusnes a'r trydydd sector, a grwpiau targed penodol fel pobl ifanc a Fforwm 50+ Caerffili.

Yn ogystal, defnyddiodd yr Asesiad ddata perthnasol ac arbenigedd pobl a sefydliadau lleol wrth ystyried cryfderau ac asedau ein cymunedau, y gellir adeiladu arnynt i helpu gwella llesiant y cymunedau hyn.

I raddau helaeth, strwythurwyd yr Asesiad ar sail saith Nod Llesiant Cymru ac, ar ddiwedd pob adran, roedd rhestr o faterion a oedd yn dod i'r amlwg y gallai'r Bwrdd fod wedi'u hystyried o ran gwaith manwl pellach. Roedd rhai o'r materion hyn yn faterion 'un sefydliad', na allai gweithredu ar y cyd gan y Bwrdd fynd i'r afael â nhw. Hefyd, roedd materion wedi'u dyblygu, felly cafodd y rhain eu huno a/neu eu diwygio.

Arweiniodd yr ymarfer hwn at restr o 36 mater sydd wedi'u crynhoi isod:

1. Gwneud y mwyaf o fuddion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fwrdeistref sirol Caerffili.
2. Datblygu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys gwneud y mwyaf o fuddion y Metro.
3. Cysylltu cludiant cyhoeddus â darparu cyfleoedd teithio llesol.
4. Darparu cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i holl sectorau'r gymuned.
5. Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r cyfleoedd cywir fel y gallant ddilyn llwybr at waith (naill ai llwybr galwedigaethol neu academaidd), gan gynnwys cyngor gyrfaol, mentora a phrofiad gwaith.
6. Amddiffyn a gwella cynefinoedd lleol at ddiben bioamrywiaeth.
7. Gwella'r ddarpariaeth mannau awyr agored cymunedol, mannau gwyrdd a chefn gwlad yn ehangach, gwella mynediad iddynt a'u hyrwyddo'n well.
8. Meithrin mwy o ymdeimlad o "ysbryd cymunedol".
9. Lleihau risgiau llifogydd, gan gynnwys amddiffyn tai, cymunedau a seilwaith a allai fod o dan fygythiad.
10. Rheoli'r defnydd ar adnoddau naturiol yn gynaliadwy a helpu cymunedau i ddeall yr angen am leihau ein hól troed ecolegol.
11. Sicrhau ein bod yn cynnal cyflenwadau diogel a dibynadwy o ddŵr glân.

12. Gostwng problemau amgylcheddol lefel isel (e.e. baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon) trwy feithrin parch tuag at ardaloedd lleol, cyfrifoldeb amdanynt a pherchenogaeth arnynt.
13. Cydbwyso'r angen am ddatblygu ag amddiffyn yr amgylchedd.
14. Gostwng y bwloch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng y poblogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol.
15. Hwyluso newid o drin salwch i gymdeithas sy'n galluogi pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach.
16. Gwella cyfran yr oedolion a'r plant yn y fwrdeistref sirol sydd â phwysau iach.
17. Gostwng cyfraddau ysmegu ymhellach a gostwng y nifer sy'n dechrau ysmegu.
18. Amlygu a thorri'r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
19. Ei gwneud hi'n haws i bobl gael apwyntiadau gyda'r meddyg teulu a'r ysbyty.
20. Darparu gwell seilwaith band eang a TG, i alluogi mwy o gynhwysiant digidol.
21. Cynnig gwybodaeth a gwasanaethau gwell, sy'n haws cael atynt, i roi'r grym i bobl wella'u llesiant eu hunain.
22. Cefnogi cyfleoedd yn y gymuned am addysg gydol oes, hobiau a diddordebau.
23. Mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd i bobl o bob oedran.
24. Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddu.
25. Datblygu tai addas i fodloni amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy.
26. Cefnogi pobl â dementia fel y gallant fyw'n dda yn eu cymuned.
27. Lleihau erledigaeth rhannau o'r gymuned sy'n agored i niwed, gan gynnwys cam-drin domestig, troseddau casineb a bwlio.
28. Lleihau effeithiau camddefnyddio sylweddau ar unigolion a chymunedau.
29. Darparu ar gyfer y celfyddydau a chefnogi cyfleoedd i bobl leol gymryd rhan yn uniongyrchol.
30. Gwneud y mwyaf o dir, adeiladau ac asedau eraill y sector cyhoeddus i'w defnyddio gan y gymuned.
31. Datblygu profiad twristiaeth a hamdden apelgar a chydlynol i drigolion ac ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol.
32. Gweithio mewn partneriaeth i warchod ac amddiffyn ein treftadaeth naturiol a'r amgylchedd adeiledig.
33. Hybu'r defnydd ar y Gymraeg mewn gweithleoedd a sefydliadau a busnesau sy'n ymwneud â'r cyhoedd fel ei bod hi'n haws sgwrsio yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.
34. Sicrhau bod cartrefi ac adeiladu cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn defnyddio ynni'n effeithlon, i leihau ein hól troed carbon.
35. Gwneud cymunedau'n fwy ymatebol i bwysau byd-eang trwy gefnogi cyfleoedd am ynni adnewyddadwy a thyfu bwyd gan y gymuned.
36. Cynnal cymunedau ac ardaloedd canol dref cynaliadwy a deniadol, a'u gwella.

Y Broses Flaenoriaethu

Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol na fyddai'n bosibl bwrw ymlaen â gwneud gwaith manwl pellach neu ddadansoddiad ymateb posibl o bob un o'r materion hyn. Felly, cytunodd gynnal ymarfer blaenoriaethu i amlygu'r blaenoriaethau pennaf yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, o leiaf yn fersiwn cyntaf y Cynllun Llesiant. I lywio'r blaenoriaethu hwn, gwnaed gwaith ymgysylltu pellach, gyda phedair prif elfen yn rhan ohono.

- Asesu pob mater gan ddefnyddio 'offeryn blaenoriaethu'
- Ymgynghori â phartneriaid statudol
- Cynnal cyfarfod Senarios yn y Dyfodol 2 gyda gweithwyr proffesiynol a oedd yn cynrychioli sefydliadau partner
- Cynnal 3 digwyddiad ymgynghori â'r gymuned ar 'A ydyn ni wedi cael hyn yn gywir?'
- Ymgynghoriad ar-lein a digwyddiadau ar raddfa lai gyda grwpiau targedig

Yr offeryn blaenoriaethu

Datblygwyd offeryn blaenoriaethu gan Dîm Polisiâu Corfforaethol y Cyngor, ar y cyd â sefydliadau partner. Fe wnaeth ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â meini prawf ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ysgogwyr polisiâu ac adnoddau. Diben yr offeryn oedd gwerthuso pob un o'r 36 mater yn dryloyw ac yn ddiuedd, gan ddefnyddio meini prawf cyffredin. Rhoddwyd sgôr o rhwng 0 a 4 i bob un o'r meini prawf, yn dibynnu ar ba mor bwysig oedd pob maen prawf unigol yn cael ei ystyried. Mae'r sgorau posibl ar gyfer pob maen prawf i'w gweld isod a 29 pwynt yw'r sgôr uchaf sydd ar gael:

	Mater	Sgôr	Maen prawf pwysoli
1.	Tueddiadau mewn data/ ymchwil	0	Mae'r tuedd mewn data yn dangos nad oes angen ymyrraeth
		1	Mae'r tuedd mewn data yn dangos bod angen rhywfaint o ymyrraeth
		2	Mae'r tuedd mewn data yn dangos bod angen ymyrraeth sylweddol
2.	Cydweithredu	1	Byddai cydweithredu'n ychwanegu bach iawn o werth
		2	Byddai cydweithredu'n ychwanegu rhywfaint o werth
		3	Byddai cydweithredu'n ychwanegu gwerth sylweddol
		4	Mae cydweithredu'n hanfodol
3.	Integreiddio ar draws nodau llesiant	1	Mae'n cyfrannu at 1-2 nod
		2	Mae'n cyfrannu at 3-4 nod
		3	Mae'n cyfrannu at 5 nod neu ragor
Cynnwys			
4a.	Wedi'i amlygu gan y cyhoedd	0	Heb ei amlygu gan y cyhoedd
		1	Mae'r mater o rywfaint o bwysigrwydd
		2	Mae'r mater o bwysigrwydd cymedrol
		3	Mae'r mater o bwysigrwydd sylweddol
4b.	Wedi'i amlygu gan randdeiliaid	0	Heb ei amlygu gan randdeiliaid
		1	Mae'r mater o rywfaint o bwysigrwydd
		2	Mae'r mater o bwysigrwydd cymedrol
		3	Mae'r mater o bwysigrwydd sylweddol

5.	Tymor hir	0	Nid yw ymyriadau'n debygol o gael unrhyw effaith tymor hir ar nodau llesiant
		1	Mae ymyriadau'n debygol o gael bach iawn o effaith tymor hir ar lesiant
		2	Mae ymyriadau'n debygol o gael effaith tymor hir cymedrol ar lesiant
		3	Mae ymyriadau'n debygol o gael effaith tymor hir sylweddol ar lesiant
Atal			
6a.	Effaith gweithredu ataliol ar lesiant	0	Mae'n debygol o gael effaith negyddol ar lesiant, neu nid yw'n debygol o gael effaith ar lesiant
		1	Mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol fach iawn ar lesiant
		2	Mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol gymedrol ar lesiant
		3	Mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol ar lesiant
6b.	Effaith gweithredu ataliol y galw am wasanaethau	0	Nid yw'n debygol o gael effaith neu mae'n debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau
		1	Mae'n debygol o gael bach iawn o effaith ar leihau'r galw am wasanaethau
		2	Mae'n debygol o gael effaith gymedrol ar leihau'r galw am wasanaethau
		3	Mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar leihau'r galw am wasanaethau
7.	Ysgogwyr strategol/polisi	0	Nid oes ysgogwyr strategol/polisi arwyddocaol
		1	Mae rhai ysgogwyr strategol/polisi arwyddocaol
		2	Mae llawer o ysgogwyr strategol/polisi arwyddocaol
8.	Defnydd ar adnoddau (effeithlonrwydd/ effeithiolrwydd)	1	Bydd hyn yn galw am adnoddau ychwanegol sylweddol
		2	Bydd hyn yn galw am adnoddau ychwanegol cymedrol
		3	Bydd hyn yn galw am bach iawn o adnoddau ychwanegol

Rhannwyd meini prawf 'cynnwys' ac 'atal' yn ddau is-gategori a rhoddwyd pwys dwbl i'r rhain, mewn ymdrech i ystyried pwysigrwydd posibl y meini prawf hyn o ran yr effeithiau ar lesiant unigolion a gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt galwadau am wasanaethau.

Sefydlwyd grŵp o gynrychiolwyr o sefydliadau partner, yn cynnwys y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Fforwm Cydlyniant Cymunedol Gwent. Cytunont ar y meini prawf uchod ac, fel grŵp, asesont bob un o'r 36 mater uchod yn unol â'r meini prawf hynny. O ganlyniad i hyn, cafwyd rhestr o faterion yn nhrefn eu sgôr a dangosir y 12 uchaf ar y dudalen nesaf.

Safle	Mater	Sgôr (29 ar y mwyaf)
1	Darparu cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i holl sectorau'r gymuned	25.0
2	Amlygu a thorri'r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	24.5
3	Hwyluso newid o drin salwch i gymdeithas sy'n galluogi pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach	23.5
4	Gostwng y bwch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng y poblogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol	22.5
5	Mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanwydd i bobl o bob oedran	22.0
=6	Gostwng problemau amgylcheddol lefel isel (e.e. baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon) trwy feithrin parch tuag at ardaloedd lleol, cyfrifoldeb amdanynt a pherchenogaeth arnynt	21.5
=6	Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddu	21.5
=8	Amddiffyn a gwella cynefinoedd lleol at ddiben bioamrywiaeth.	21.0
=8	Cynnig gwybodaeth a gwasanaethau gwell, sy'n haws cael atynt, i roi'r grym i bobl wella'u llesiant eu hunain.	21.0
=8	Lleihau erledigaeth rhannau o'r gymuned sy'n agored i niwed, gan gynnwys cam-drin domestig, troseddau casineb a bwlio.	21.0
=8	Sicrhau bod cartrefi ac adeiladu cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn defnyddio ynni'n effeithlon, i leihau ein hól troed carbon.	21.0
12	Datblygu tai addas i fodloni amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy.	20.5

Senarios yn y Dyfodol 2

Ar 2 Chwefror 2017, cynhaliwyd ail gyfarfod 'Senarios yn y Dyfodol' gyda gweithwyr proffesiynol o sefydliadau partner ac roedd dros 70 o unigolion yn bresennol. Rhannwyd y cyfarfod yn weithdai a gofynnwyd iddynt a oedd y rhestr o 36 mater yn cynnwys y pethau roeddent yn disgwyl eu gweld yn deillio o'r Aseiad Llesiant. Crybwyllodd nifer o grwpiau gweithdy fod llythrennedd ariannol yn fater a oedd ar goll o'r rhestr a chytunwyd y byddai'n cael ei ychwanegu at y rhestr wreiddiol. Cytunwyd ar eiriad y mater hwn fel a ganlyn:

'Gwella llythrennedd ariannol i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus am eu harian personol ac arian y teulu'

Gofynnwyd i bob un o'r grwpiau gweithdy roi'r 5 mater pwysicaf iddynt o'r rhestr o 37 yn nhrefn blaenoriaeth; drosodd, mae crynodeb o'r 12 mater â'r flaenoriaeth bennaf a ddeilliodd o'r cyfarfod hwn.

Safle	Mater	Nifer y grwpiau a enwodd hwn yn flaenoriaeth
1	Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r cyfleoedd cywir fel y gallant ddilyn llwybr at waith (naill ai llwybr galwedigaethol neu academiaidd), gan gynnwys cyngor gyrfaol, mentora a phrofiad gwaith	7
2	Darparu cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i holl sectorau'r gymuned	6
3	Datblygu tai addas i fodloni amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy.	5
=4	Amlygu a thorri'r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	4
=4	Hwyluso newid o drin salwch i gymdeithas sy'n galluogi pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach	4
=6	Gostwng y bwch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng y poblogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol	3
=6	Gwneud y mwyaf o fuddion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fwrdeistref sirol Caerffili	3
=8	Datblygu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys gwneud y mwyaf o fuddion y Metro.	2
=8	Gwella'r ddarpariaeth manau awyr agored cymunedol, manau gwyrdd a chefn gwlad yn ehangach, gwella mynediad iddynt a'u hyrwyddo'n well.	2
=8	Meithrin mwy o ymdeimlad o "ysbryd cymunedol".	2
=8	Cydbwysu'r angen am ddatblygu ag amddiffyn yr amgylchedd.	2
=8	Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddu.	2

Digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned

Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned er mwyn cael adborth ar y 37 mater a chwblhau'r ymarfer blaenoriaethu. Dyma fanylion am y dyddiadau a'r lleoliadau:

- Eglwys Fethodistaidd y Coed-duon, 8 Chwefror 2017
- Eglwys Gymunedol Elim (Pontlotyn), 13 Chwefror 2017
- Neuadd Gymuned Bedwas a Threthomas, 23 Chwefror 2017

Daeth cyfanswm o 48 o drigolion a chynrychiolwyr y gymuned i'r cyfarfodydd hyn. Yr un oedd fformat y cyfarfod â'r cyfarfod ar Senarios yn y Dyfodol, lle y gofynnwyd i'r mynychwyr amlygu unrhyw faterion coll ac yna rhoi'r 5 mater pwysicaf iddynt yn nhrefn blaenoriaeth. Ni amlygwyd unrhyw faterion coll ar yr adeg hon. Isod, mae crynodeb o'r 11 mater pwysicaf a ddeilliodd o'r cyfarfodydd ymgysylltu hyn:

Safle	Mater	Nifer y grwpiau a enwodd hwn yn flaenoriaeth
1	Darparu cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i holl sectorau'r gymuned	5
2	Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r cyfleoedd cywir fel y gallant ddilyn llwybr at waith (naill ai llwybr galwedigaethol neu academiaidd), gan gynnwys cyngor gyrfaol, mentora a phrofiad gwaith	4
=3	Ei gwneud hi'n haws i bobl gael apwyntiadau gyda'r meddyg teulu a'r ysbyty	3
=3	Cefnogi pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor eraill i fyw'n dda yn eu cymunedau	3
=3	Cydbwysu'r angen am ddatblygu ag amddiffyn yr amgylchedd	3
=3	Amlygu a thorri'r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	3
=7	Gostwng problemau amgylcheddol lefel isel (e.e. baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon) trwy feithrin parch tuag at ardaloedd lleol, cyfrifoldeb amdanynt a pherchenogaeth arnynt	2
=7	Gostwng y bwlbch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng y poblogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol	2
=7	Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddu	2
=7	Datblygu tai addas i fodloni amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy	2
=7	Sicrhau ein bod yn cynnal cyflenwadau diogel a dibynadwy o ddŵr glân	2

Ymgynghoriad ar-lein a grwpiau targedig

Datblygwyd arolwg ar-lein yn cyd-fynd â chynnwys y cyfarfodydd ar ffurf gweithdai wyneb yn wyneb ac fe'i hysbysebwyd ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Atebodd 152 o drigolion neu sefydliadau'r arolwg ac fe'i hatebwyd gan 31 unigolyn arall mewn digwyddiadau grŵp targedig. Eto, gofynnwyd i ymatebwyr restru'r 5 mater o'r flaenoriaeth bennaf iddynt, gyda'r 12 pennaf drwyddi draw wedi'u crynhoi drosodd.

Safle	Mater	Nifer yr ymatebion
1	Ei gwneud hi'n haws i bobl gael apwyntiadau gyda'r meddyg teulu a'r ysbyty	76
2	Darparu cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i holl sectorau'r gymuned.	68
3	Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r cyfleoedd cywir fel y gallant ddilyn llwybr at waith (naill ai llwybr galwedigaethol neu academaidd), gan gynnwys cyngor gyrfaol, mentora a phrofiad gwaith.	53
4	Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddu.	49
5	Datblygu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys gwneud y mwyaf o fuddion y Metro.	41
6	Gostwng problemau amgylcheddol lefel isel (e.e. baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon) trwy feithrin parch tuag at ardaloedd lleol, cyfrifoldeb amdanynt a pherchenogaeth arnynt.	40
7	Mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd i bobl o bob oedran.	38
=8	Gwella'r ddarpariaeth manau awyr agored cymunedol, manau gwyrdd a chefn gwlad yn ehangach, gwella mynediad iddynt a'u hyrwyddo'n well.	36
=8	Hwyluso newid o drin salwch i gymdeithas sy'n galluogi pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach.	36
10	Cynnal cymunedau ac ardaloedd canol dref cynaliadwy a deniadol, a'u gwella.	35
11	Datblygu tai addas i fodloni amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy.	34
12	Cefnogi pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor eraill i fyw'n dda yn eu cymunedau.	33

Crynodeb o'r materion sy'n deillio o'r 4 elfen flaenoriaethu

Er mwyn amlygu'r materion â blaenoriaeth yr oedd angen eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd, cyfunwyd canlyniadau'r 4 elfen flaenoriaethu. Mae'r tabl drosodd yn dangos y 12 prif fater a amlygwyd gan bob un o'r 4 ymarfer blaenoriaethu, wedi'u cyfuno'n un tabl, i ddangos pa faterion a amlygwyd amlaf, gyda'r sgorau uchaf.

Safle	Mater	Safle'r elfen flaenoriaethu			
		Offeryn blaenoriaethu	Senarios yn y dyfodol	Ymgysylltu â'r gymuned	Arolwg ar-lein
1	Darparu cyfleoedd hyfforddiant, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i holl sectorau'r gymuned	1	2	2	2
2	Amlygu a thorri'r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	2	=4	=3	*
3	Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddu	=6	=8	=7	4
4	Datblygu tai addas i ateb anghenion amrywiol pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy	12	3	=7	11
5	Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r cyfleoedd cywir fel y gallant ddilyn llwybr at waith (naill ai llwybr galwedigaethol neu academaidd), gan gynnwys cyngor gyrfao, mentora a phrofiad gwaith		1	1	3
6	Hwyluso newid o drin salwch i gymdeithas sy'n galluogi pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach	3	=4		=8
7	Gostwng y bwch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng y poblogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol	4	=6	=7	
8	Gostwng problemau amgylcheddol lefel isel (e.e. baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon) trwy feithrin parch tuag at ardaloedd lleol, cyfrifoldeb amdanynt a pherchenogaeth arnynt	=6		=7	6
9	Ei gwneud hi'n haws i bobl gael apwyntiadau gyda'r meddyg teulu a'r ysbyty			=3	1

Safle	Mater	Safle'r elfen flaenoriaethu			
		Offeryn blaenoriaethu	Senarios yn y dyfodol	Ymgysylltu â'r gymuned	Arolwg ar-lein
10	Gwneud y mwyaf o fuddion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i fwrdeistref sirol Caerffili		=6	=3	
11	Cydbwyso'r angen am ddatblygu ag amddiffyn yr amgylchedd		=8	=3	
12	Mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd i bobl o bob oedran	5			7
13	Datblygu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys gwneud y mwyaf o fuddion y Metro		=8		5
14	Cefnogi pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor eraill i fyw'n dda yn eu cymunedau			=3	12
15	Gwella'r ddarpariaeth mannau awyr agored cymunedol, mannau gwyrdd a chefn gwlad yn ehangach, gwella mynediad iddynt a'u hyrwyddo'n well		=8		=8
16	Sicrhau ein bod yn cynnal cyflenwadau diogel a dibynadwy o ddŵr glân			=7	
17	Meithrin mwy o ymdeimlad o "ysbryd cymunedol"		=8		
18	Amddiffyn a gwella cynefinoedd lleol at ddiben bioamrywiaeth	=8			
19	Cynnig gwybodaeth a gwasanaethau gwell, sy'n haws cael atynt, i roi'r grym i bobl wella'u llesiant eu hunain	=8			
20	Lleihau erledigaeth rhannau o'r gymuned sy'n agored i niwed, gan gynnwys cam-drin domestig, troseddau casineb a bwlio	=8			
21	Sicrhau bod cartrefi ac adeiladu cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn defnyddio ynni'n effeithlon, i leihau ein hól troed carbon	=8			
22	Cynnal cymunedau ac ardaloedd canol dref cynaliadwy a deniadol, a'u gwella				10

* Tybir bod y mater hwn wedi cael sgôr gwael yn yr arolwg ar-lein, gan na roddwyd esboniad o beth yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, argymhellwyd bod y Bwrdd yn ystyried y materion canlynol â blaenoriaeth ar gyfer gwaith manwl pellach a dadansoddiad ymateb:

1. Darparu cyfleoedd hyfforddiant, cymorth, prentisiaethau, gwaith a gwirfoddoli sy'n briodol i bob oedran ac i holl sectorau'r gymuned.
2. Amlygu a thorri'r cylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
3. Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned trwy ostwng lefelau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ofn troseddau.
4. Datblygu tai addas, cynaliadwy i fodloni amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy.
5. Hwyluso newid o drin salwch meddwl a salwch corfforol i gymdeithas sy'n galluogi pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach, i ostwng y bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng y poblogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol.
6. Gostwng problemau amgylcheddol lefel isel trwy feithrin parch tuag at ardaloedd lleol, cyfrifoldeb amdanynt a pherchenogaeth arnynt. Gwella'r ddarpariaeth mannau awyr agored cymunedol, mannau gwyrdd a chefn gwlad yn ehangach, gwella mynediad iddynt a'u hyrwyddo'n well.

O ran y mater 'Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r cyfleoedd cywir fel y gallant ddilyn llwybr at waith (naill ai llwybr galwedigaethol neu academaidd), gan gynnwys cyngor gyfaol, mentora a phrofiad gwaith', teimlwyd y gellid mynd i'r afael â hwn o dan y flaenoriaeth yn ymwneud â hyfforddiant, prentisiaethau, cyflogaeth a gwirfoddoli.

Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 7 Mawrth 2017

Yn y cyfarfod hwn, cyflwynwyd y rhestr lawn o'r 37 mater a amlygwyd yn yr Aseiad Llesiant i'r Bwrdd, ynghyd â chanlyniadau pedair elfen yr ymarfer blaenoriaethu a gyflawnwyd.

Argymhellwyd cytuno ar y chwe maes uchod â blaenoriaeth er mwyn cynnal gwaith manwl pellach arnynt a dadansoddiad ymateb. At hynny, byddai aelodau'r Bwrdd yn enwebu unigolion i 'arwain' y gwaith manwl pellach a'r dadansoddiad ymateb, a byddai'r rhain yn dod o'r sefydliad arweiniol mwyaf priodol ar gyfer pob mater â blaenoriaeth. Byddai'r Bwrdd yn cael adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith manwl hwn yn ei gyfarfod ym Mehefin 2017, i helpu i lywio datblygiad yr Amcanion Llesiant.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion hyn.

Dadansoddiad Ymateb

Yn dilyn cyfarfod Bwrdd Mawrth 2017, gwnaed gwaith ac ymchwil manwl pellach i bob un o'r materion uchod â blaenoriaeth. I hwyluso'r drafodaeth a'r gwaith pellach gofynnol, rhannwyd y flaenoriaeth gyntaf yn 'brentisiaethau' ac yn 'wirfoddoli', oherwydd teimlwyd y byddai ffocws gwell i weithgarwch y dadansoddiad ymateb fel hyn. Rhoddwyd templed i bob un o'r swyddogion arweiniol enwebedig ei lenwi gyda'r wybodaeth berthnasol ar gyfer pob mater unigol â blaenoriaeth. Y sail resymegol ar gyfer defnyddio'r templed oedd y byddai aelodau'r Bwrdd yn gallu cymharu'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch yr holl faterion â blaenoriaeth yn hawdd.

Gofynnodd y templed am wybodaeth yn ymwneud â nifer o feysydd allweddol, sy'n cael eu crynhoi isod:

- Deilliannau'r gwaith o dan y flaenoriaeth?
- Pa gyfraniad gall gweithio tuag at y deilliannau hyn ei gyflawni ar gyfer lles ym mwrdeistref sirol Caerffili?
- Beth yw'r ddadl o blaid blaenoriaethu gwaith ar y mater hwn?
- A yw'n fater y gellid mynd i'r afael ag ef dros y tymor byr, y tymor canol neu'r tymor hir?
- Sut gallai gyfrannu at y 7 Nod Llesiant?
- Sut gallai gysylltu â meysydd eraill y dadansoddiad ymateb?
- Ble'r ydym ni nawr (tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol)?
- Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd a phwy sy'n ei wneud?
- A oes gennym ni ddarlun cynhwysfawr o'r holl weithgarwch e.e. sector preifat, trydydd sector, ymyriadau cymunedol?
- Pa mor effeithiol yw'r gwaith presennol?
- Pa mor dda mae'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn cyfrif am y 5 ffordd o weithio?
- Beth yn rhagor ellid ei wneud?
- Casgliadau ac argymhellion i'r Bwrdd

Ar gyfer pump o'r saith maes â blaenoriaeth (gan gynnwys prentisiaethau a gwirfoddoli ar wahân), cynhaliwyd sesiynau gweithdy gyda gweithwyr proffesiynol gwadd sy'n gweithio yn y meysydd unigol â blaenoriaeth. Diben hyn oedd helpu i lywio datblygiad templed dadansoddiad ymateb a sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chynnwys mor llawn â phosibl. Caiff yr adroddiadau terfynol ar gyfer pob maes â blaenoriaeth eu crynhoi yn Atodiad 2 y Cynllun Llesiant.

Penderfynwyd na fyddai'n ymarferol bwrw ymlaen ag ymchwil a gwaith manwl pellach ar faes blaenoriaeth 'tai addas, cynaliadwy', oherwydd ystyriwyd mai blaenoriaeth i'r Cyngor oedd hon yn hytrach na blaenoriaeth y gallai'r Bwrdd fwrw ymlaen â hi ar y cyd.

Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 6 Mehefin 2017

Yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin, cafodd y Bwrdd adroddiad a wnaeth grynhwyl'r holl ymchwil a gwaith manwl pellach ynghylch pob un o'r meysydd â blaenoriaeth. Cytunont fwrw ymlaen a datblygu'r holl feysydd, ac eithrio 'tai addas, cynaliadwy', yn amcanion ar gyfer y Cynllun Llesiant.

Mewn perthynas â 'tai addas, cynaliadwy', cefnogodd aelodau'r Bwrdd y farn bod hyn yn ymwneud yn bennaf â buddsoddiad yr awdurdod lleol, yn hytrach na'n fater y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynd i'r afael ag ef. Awgrymwyd y gellid ail-lunio'r flaenoriaeth hon fel ei bod yn weithgaredd mwy targedig, gan ddefnyddio model 'Clymblaid dros Newid'¹ Lansbury Park, gyda'r bwriad o rannu'r dysgu am ymyriadau

¹ Nodwyd mai St James 3 (sy'n cynnwys rhan o stâd Lansbury Park yng nghanol tref Caerffili) oedd yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yng Nghymru ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Penodwyd Dr Mark Lang i ymgymryd ag Astudiaeth 'Deep Place' o'r stâd, a arweiniodd at sefydlu partneriaeth amlasiantaeth 'Clymblaid dros Newid' rhwng yr holl bartneriaid sector cyhoeddus sy'n gweithredu ar y stâd neu sy'n darparu gwasanaethau i'w thrigolion

targedig sy'n gweithio yn y maes hwn a'u rhoi ar waith mewn cymunedau difreintiedig eraill ar draws y fwrdeistref sirol. Cymeradwyodd y Bwrdd yr awgrymu a chytuno i'w gynnwys yn y Cynllun Llesiant.

Cyfarfod Cynhadledd Sefydlog Caerffili ar 16 Mehefin 2017

Cynhadledd Sefydlog Caerffili yw'r bartneriaeth ehangach sy'n cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwaith ar yr Asesiad a'r Cynllun Llesiant. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o 85 sefydliad a mwy o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n gweithredu yn y fwrdeistref sirol, neu sy'n cyflwyno gwasanaethau ynddi, a gallant fod wedi'u lleoli yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a chwaraeont ran lawn yn natblygiad yr Asesiad Llesiant.

Diben y cyfarfod oedd cyflwyno'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt i'r bartneriaeth ehangach, i amlygu sut gall y sefydliadau gefnogi'r blaenoriaethau gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio (ICLIP), i amlygu arfer da presennol ac i ddechrau'r broses o ddatblygu'r cynllun neu'r camau gweithredu a fydd yn cyd-fynd â'r fersiwn cyntaf hwn o'r Cynllun Llesiant.

Hefyd, gofynnwyd i fynychwyr roi eu barn mewn perthynas â phedwar cwestiwn allweddol yn gysylltiedig â phob maes â blaenoriaeth:

1. Trwy weithio mewn partneriaeth, beth allwch chi/beth all eich sefydliad ei gyfrannu at y flaenoriaeth hon?
2. Pa gamau gweithredu allweddol dylem eu cymryd gyda'n gilydd?
3. Sut gallwn ni gysylltu'r flaenoriaeth hon â'r blaenoriaethau eraill?
4. Beth mae arnom angen ei wneud yn wahanol/ei oresgyn?

Y nod oedd cael syniadau ar gyfer gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion â blaenoriaeth, sut gallai'r mynychwyr gefnogi'r rhain a beth fyddai'r camau cychwynnol, yn eu barn nhw. Cyfrannodd y sylwadau o'r cyfarfod hwn at y cynllun gweithredu drafft sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant.

Datblygu'r amcanion – y Pedair Efen Gadarnhaol

Er bod strwythur yr Asesiad Llesiant wedi'i seilio ar y Nodau Llesiant a bod y dadansoddiad ymateb dilynol yn seiliedig ar y materion allweddol a amlygwyd yn yr Asesiad, pwynt trafod parhaus trwy gydol y broses oedd yr annhebygolrwydd y byddai'r Cynllun yn seiliedig ar y naill strwythur hwn neu'r llall.

Roedd ein trigolion wedi datgan yn glir bod penawdau artiffisial, boed yn nodau neu'n themâu'r Cynllun Integredig Sengl, yn ymddangos iddynt gael eu cynllunio i raddau helaeth fel y gallai partneriaid a sefydliadau cyflenwi strwythuro'u cymorth, yn hytrach nag adlewyrchu bywyd go iawn neu agweddau gwahanol ar lesiant. Deallont fod llesiant unigol yn rhyngweithiad cymhleth o lawer o ffactorau a materion nad ydynt yn ffitio'n daclus mewn "seilos". Roedd hyn yn taro tant gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a oedd hefyd yn awyddus i sicrhau bod y Cynllun newydd yn cydnabod y newid sylfaenol o'r strwythurau cyflenwi blaenorol i ddiwylliant newydd a ffyrdd newydd o weithio. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am i'r Cynllun newydd adlewyrchu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r 5 ffordd o weithio yn llawn.

Pan gyflwynwyd canfyddiadau'r dadansoddiad ymateb yn y Gynhadledd Sefydlog ar 16 Mehefin 2017, cafwyd negeseuon clir gan y partneriaid a oedd yno. Roedd y negeseuon hyn yn cynnwys yr angen am strwythur gwahanol i'r strwythur yn y Cynllun Integredig Sengl, nad oedd y nodau a'r themâu yn strwythurau priodol ar gyfer y Cynllun newydd ac y dylai'r Cynllun hwyluso newid mewn diwylliant a symud cyflenwi i fwrdd o'r seilos blaenorol.

Y thema gadarn arall o'r Aseiad Llesiant oedd bod preswylwyr yn cydnabod yr agweddau cadarnhaol niferus ar fyw yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys yr amgylchedd deniadol a'r ysbryd cymunedol cryf. Teimlwyd bod hyn hefyd yn gwahaniaethu'r Cynllun Llesiant (sy'n seiliedig ar aseiad o'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar lesiant, sef ffactorau cadarnhaol a negyddol) rhag y Cynllun Integredig Sengl, a oedd yn seiliedig ar aseiad anghenion ac, felly, yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau negyddol.

Ystyriwyd yr holl adborth a sylwadau a dechreuodd y cynnig ar gyfer "Caerffili Gadarnhaol" ddod i'r amlwg, yn adeiladu ar asedau lleol ac yn hybu ymagwedd bositif, "gallwn wneud". Er mwyn sicrhau bod y partneriaid yn cael eu cefnogi i weithredu gyda'i gilydd yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r 5 ffordd o weithio, teimlwyd y dylid cynnwys amcan cyffredinol ar newid cadarnhaol.

Amlygwyd tri maes clir arall gan bartneriaid ac yn ystod y broses ymgysylltu. Roedd y cyntaf yn seiliedig ar sicrhau bod ein pobl ifanc – cenedlaethau'r dyfodol – yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Yr ail faes oedd galluogi a rhoi'r grym i'n holl drigolion gyflawni eu potensial. Roedd y pedwerydd maes yn adlewyrchu'r awydd i alluogi ein cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, i fod yn fwy cydnerth a chynaliadwy.

Yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2017, cytunodd y Bwrdd ar ei Gynllun Llesiant drafft, 'Y Gaerffili a Garem', sy'n seiliedig ar 4 amcan lefel uchel:

- **Newid Cadarnhaol** – Ymrwymiad ar y cyd i newid ar draws y sector
- **Dechrau Cadarnhaol** – Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i genedlaethau'r dyfodol
- **Pobl Gadarnhaol** – Rhoi'r grym i'n holl drigolion a'u galluogi i gyflawni eu potensial eu hunain
- **Mannau Cadarnhaol** – Galluogi ein cymunedau i fod yn gydnerth ac yn gynaliadwy